**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (115)**

**Dydd Mawrth, 1 Chwefror 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**
NDM2267 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2005-2, yn cael ei sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad i gyflawni swyddogaethau yn unol â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn o dan adran 77(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones AC (Cadeirydd)
Carl Sargeant AC
Mick Bates AC
Alun Ffred Jones AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 25 Chwefror 2005, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, y bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r cyfryw fater, yn cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

<u>Atodlen</u>

CAIS CYNLLUNIO A ALWYD I MEWN O DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A

THREF 1990 GAN MILLER ARGENT (SOUTH WALES) LIMITED AR GYFER CYNLLUN ADFER TIR FFOS-Y-FRAN, SY'N CYNNWYS CLODDIO AM LO BRIG. HWN YW RHAN OLAF CYNLLUN ADFER TIR DWYRAIN MERTHYR.

................................

## Eitem 2

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Cwestiynau

............................................

## Eitem 3

**Datganiad Busnes**
Datganiad Busnes Drafft

............................................

## Eitem 4

**Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Anghenion Addysgol Arbennig**

............................................

## Eitem 5

***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth***

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

NDM2268 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 25 Ionawr 2005 ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005, a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) Y Rheoliadau Drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Ionawr 2005,
ii) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Ionawr 2005,
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 25 Ionawr 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

..........................................

## Eitem 6

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005**

**NDM2269 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 25 Ionawr 2005.

**NDM2270 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 25 Ionawr 2005.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad wedi'i osod gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Dogfennau Ategol
Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005

……………………………………

## Eitem 7

**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**

NDM2271 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael effaith ddifrifol ar gymunedau ledled Cymru a thros y byd ac yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i fwrw ymlaen yn gyflymach â'r agweddau hynny ar ei bolisi a all arwain at leihau gollyngiadau carbon.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2)+(3)**

**Gwelliant**

**1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ar ôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhoi pwynt 1 newydd:

Yn gresynu at fethiant Llywodraethau Llafur Newydd i weithredu'n effeithiol wrth fodloni targedau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ar gyfer lleihau gollyngiadau carbon.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog atebion ar raddfa fach fel rhan annatod o'i strategaeth i leihau gollyngiadau carbon.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgymryd â rhaglen gyfathrebu a gwybodaeth ar leihau gollyngiadau carbon a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

..........................................

## Eitem 8

**Dadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 a gyflwynwyd gan Gwenda Thomas**
NDM2225 Gwenda Thomas (Castell-nedd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 31.2:

1. Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ddrafft o dan adrannau 210(2)(b) a 215(2) o Ddeddf Tai 1996 i ddarparu y bydd y materion canlynol yn cael eu hystyried wrth benderfynu a fyddai'n rhesymol i berson sy'n agored i niwed gael lle mewn llety, ac wrth benderfynu a ydyw llety yn addas i berson sy'n agored i niwed:

a) anghenion iechyd penodol y person sy'n agored i niwed;
b) pa mor agos a hygyrch yw'r gwasanaethau cymdeithasol;
c) pa mor agos a hygyrch yw'r gwasanaethau cefnogi teuluoedd a'r gwasanaethau cefnogi eraill;
d) anabledd penodol y person sy'n agored i niwed.

2. Yn cytuno y bydd y diffiniad o "berson sy'n agored i niwed" yn cynnwys:

a) menywod beichiog;
b) rhieni sengl (boed yn wryw neu benyw);
c) pobl ifanc sy'n gadael gofal;
d) oedolion ifanc anabl;
e) plant ag anableddau;

ynghyd â ffactorau perthnasol eraill.

**Dadansoddiad o Gost a Budd:**

Bydd y gorchymyn yn troi'r arferion da o ran gwneud cynigion rhesymol i bobl ddigartref, y mae'r awdurdodau gorau eisoes yn eu sicrhau o fewn y lefelau cyllido presennol, yn ddeddfwriaeth.

Mae pob un o'r ffactorau sydd i'w hystyried eisoes wedi'u cynnwys yn yr adrannau perthnasol yn y Cod Canllawiau, ac felly maent yn ffactorau y dylai'r awdurdodau eisoes fod yn casglu gwybodaeth amdanynt ac yn eu hasesu. Ni ddylai fod yn faich ychwanegol sylweddol i gasglu nac asesu'r wybodaeth.

O ganlyniad, prin iawn fydd yr effaith ariannol ar yr awdurdodau.

*Ceir copi o Ddeddf Tai 1996 trwy ddilyn y cyswllt canlynol:*
*http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts1996/1996052.htm - Ni fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr*

**...........................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 2 Chwefror 2005**

E P Silk

Clerc y Cynulliad